NODYN BRIFFIO

Materion ac Opsiynau Cyllido CDS

Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

Y Cyd-destun

Mae gan y CBC ddyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS), ac fel rhan o hyn, dylai asesu faint o adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r ddyletswydd hon, yn cynnwys sut i ariannu'r gwaith o gynhyrchu'r cynllun hwn yn llawn.

Mae Nodyn Esboniadol 1 Llywodraeth Cymru (Cynlluniau Datblygu Strategol - y trosglwyddiad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig) a gynhyrchwyd yn 2021 yn nodi ym mharagraff 5.2; "*mae angen gwneud cyswllt allweddol rhwng y Cytundeb Cyflawni (CC), graddfa a chwmpas y tîm paratoi cynllun a chynllunio ariannol, oherwydd heb fod y tri yn eu lle gall cynnydd gael ei rwystro*".

Gwnaed gwaith gan Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG) yn 2021 i asesu graddfa a sgôp tîm paratoi cynllun, ac i asesu sgôp a chostau tebygol cynhyrchu CDS yn gyffredinol. Roedd yr ymarferiad hwn yn cyfrifo y byddai'r costau cyffredinol i gynhyrchu'r CDS yn £3,120,461, a chan dybio bod 5% yn rhesymol am gynnydd/chwyddiant ers hynny, byddai'r gost erbyn hyn yn £3,276,484.

Tra bo CBC y Gogledd wedi mynd ati'n ddarbodus i osod cyllideb i gychwyn gwaith ar y CDS yn ei gyllideb gyntaf ar gyfer 2025/26 (£431,500), gyda'r rhagdybiaeth ar gyfer amserlen cynhyrchu cynllun o 5 mlynedd (2026/27 - 2030/31), ni fyddai hyn (os yw'n cael ei gadw'n statig) yn bodloni costau llawn y CDS, sy'n cael ei amcangyfrif gan NWPOG.

Mae cael adnoddau a chyllid ar gyfer y CDS yn fater allweddol sy'n cael ei godi gan bob un o'r pedwar CBC yng Nghymru ar hyn o bryd, oherwydd er bod y mwyafrif o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) wedi ymgysylltu ag ymgynghorwyr i arwain ar gynhyrchu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), mae'r gofynion hwy a mwy cymhleth ar gyfer CDS yn golygu bod y CBC angen ystyried defnyddio ei staff ei hun i gydlynu'r CDS mewn ffordd sy'n gost-effeithiol.

Mae cadeiryddion y pedwar CBC yn ystyried gwneud cyswllt gyda Lywodraeth Cymru i ddatgan, heb gefnogaeth ariannol sylweddol gan LlC, ni fydd ganddynt adnoddau ddigonol i baratoi CDS ar gyfer eu ranbarthau perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru (yn anffurfiol ar hyn o bryd) wedi awgrymu bod posibilrwydd y bydd £400k ar gael yn y flwyddyn er mwyn i bob CBC fwrw ymlaen gyda'r gwaith ar y Cytundebau Cyflawni. Byddai hyn yn cynnig £100k fesul CBC os yw'n cael ei ddosbarthu yn gyfartal, ond deallir ei fod yn fwy tebygol o gael ei gynnig i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny sydd eisoes wedi cychwyn gweithio ar eu Cytundebau Cyflawni. Ar hyn o bryd, mae Rhanbarth Prifddinas Caerdydd wedi paratoi Cytundeb Cyflawni drafft ac wedi cwblhau ymgynghoriad, ond nid yw wedi cyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru. Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru ddrafft cyntaf o Gytundeb Cyflawni a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno dros yr haf. Nid yw'r ddau CBC arall wedi cychwyn gweithio ar eu Cytundebau Cyflawni. Mae hyn yn golygu bod £200k posib ar gael i Uchelgais Gogledd Cymru - £100k pan fo Cytundeb Cyflawni drafft yn cael ei gytuno gan y CBC (Medi 2025) a £100k pan fo Cytundeb Cyflawni terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (DS: mae'r Cytundeb Cyflawni terfynol angen adnabod sut fydd y CDS yn cael ei ariannu'n llawn gan y CBC, a'i gyflwyno erbyn 31.03.2026 er mwyn medru hawlio'r ail grant o £100k).

Y dyraniad cyllideb CBC ar gyfer y CDS 2025/26

Cytunodd y CBC ar ei gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr, 2025. Mae'r gwariant refeniw a'r incwm a gytunwyd ar gyfer y CDS fel a ganlyn:

Cyllideb Refeniw 2025/26 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. **Atodiad 1**

Gwariant	Cynllunio Strategol (£)	Trafnidiaeth (£)	Parth Buddsoddi (£)	Cyd-Bwyllgor Corfforedig (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)
Gweithwyr					
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	226,230	112,970	0	428,880	768,080
Lwfans aelodau lleyg	0	0	0	1,230	1,230
Cyfanswm Gweithwyr	**226,230**	**112,970**	**0**	**430,110**	**769,310**
Teithio					
Teithio a chynhaliaeth	940	400	0	1,660	3,000
Cyfanswm Teithio	**940**	**400**	**0**	**1,660**	**3,000**
Cyflenwadau a gwasanaethau					
Offer a chyfarpar	3,440	1,470	0	6,090	11,000
Cyflenwadau amrywiol	940	400	0	1,660	3,000
Ymgysylltu a chyfarfodydd	930	1,160	0	2,780	4,870
Ffioedd Archwilio Cymru	0	0	0	30,000	30,000
Ymgynghorwyr allanol	132,500	66,340	0	10,000	208,840
Yswiriant	15,000	15,000	0	30,000	60,000
Systemau	4,770	5,960	0	14,310	25,040
Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau	**157,580**	**90,330**	**0**	**94,840**	**342,750**
Gwasanaethau Cefnogol					
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151)	11,630	10,920	0	47,100	69,650
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	12,940	12,940	0	27,330	53,210
Cefnogaeth Democratiaeth	14,220	17,770	0	42,650	74,640
Gwasanaethau Corfforaethol	4,750	4,920	0	12,710	22,380
Technoleg Gwybodaeth	3,210	1,380	0	5,690	10,280
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol	**46,750**	**47,930**	**0**	**135,480**	**230,160**
Costau sefydlu					
Cyfreithiol	0	0	0	50,000	50,000
Ymgynghorwyr Allanol	0	0	0	72,000	72,000
Parth Buddsoddi	0	0	180,000	0	180,000
Cyfanswm Costau sefydlu	**0**	**0**	**180,000**	**122,000**	**302,000**
Cyfanswm Cyllideb Gwariant	**431,500**	**251,630**	**180,000**	**784,090**	**1,647,220**
Parth Buddsoddi	0	0	(180,000)	0	**(180,000)**
Cyfraniad o gronfa	(56,460)	(67,450)	0	(440,830)	**(564,740)**
Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net	**375,040**	**184,180**	**0**	**343,260**	**902,480**

Incwm	Cynllunio Strategol (£)	Swyddogaethau eraill (£)	Cyfanswm Ardoll (£)	Ardoll 2024/25	(Cynnydd)/ Gostyngiad
Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(59,630)	(87,190)	(146,820)	(123,880)	(22,940)
Cyngor Sir Ddinbych	(52,660)	(74,050)	(126,710)	(107,300)	(19,410)
Cyngor Sir y Fflint	(84,450)	(118,820)	(203,270)	(172,610)	(30,660)
Cyngor Gwynedd	(53,860)	(90,830)	(144,690)	(121,130)	(23,560)
Cyngor Sir Ynys Môn	(37,540)	(52,800)	(90,340)	(76,710)	(13,630)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(73,770)	(103,750)	(177,520)	(150,420)	(27,100)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)	(13,130)		(13,130)	(12,770)	(360)
Cyfanswm Cyllideb Incwm	**(375,040)**	**(527,440)**	**(902,480)**	**(764,820)**	

Mae'r gyllideb gwariant gros ar gyfer gwaith CDS yn £431,500 sy'n cynnwys yr holl gostau staffio, ymgynghoriaeth, cyflenwadau a gwasanaethau, a chostau cefnogi eraill. Y ffynhonnell gyllid ar gyfer hyn yw'r cyfraniad cymesur gan bob awdurdod lleol sy'n £375,040 + cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn o £56,460.

Pe byddai'r gyllideb bresennol yn parhau'n statig am hyd y CDS, yna byddai cyfanswm y gyllideb yn £2,157,500 o flwyddyn ariannol 2026/27 (h.y. £431,500 x 5). Pan fo hyn yn cael ei gymharu gydag amcan gost NWPOG, byddai hyn yn gadael diffyg cyllidol o £1,118,984 (neu £223,796.81 y flwyddyn). Mae hyn yn cynrychioli gofyniad blynyddol cyfartalog o £31,970.97 yn ychwanegol gan bob awdurdod lleol.

I gwblhau'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, rhaid i'r CBC nodi'r costau ar gyfer cynhyrchu'r CDS, a'r ffigyrau a ddarparwyd gan NWPOG yw'r unig amcangyfrifon rhesymol sydd ar gael ar gyfer y diben hwn. Maent hefyd yn unol â chostau tebyg sydd wedi'u cyfrifo gan Ranbarth Dinas Caerdydd yn eu Cytundeb Cyflawni drafft a'r amcangyfrifon ehangach a wnaed gan y CBC eraill oedd wedi nodi costau posib o rhwng £3.5-£4.5m. Mae'r ffaith bod yn rhaid i'r CBC hefyd ddangos ei fod wedi

dyrannu cyllideb ddigonol i gwrdd â'r costau hyn dros oes y prosiect CDS, cyn cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth, yn elfen sydd yn fwy hanfodol byth.

Ffyrdd i gwrdd â'r diffyg ariannol

Pan wnaeth NWPOG baratoi'r amcangyfrifon cost i gynhyrchu CDS (tabl 5 isod), fe nodwyd cyfran y gost ar gyfer pob awdurdod lleol hefyd, yn seiliedig ar faint poblogaeth pob ACLl (tabl 7 isod).

Tabl 5 - Cyllideb Blynyddol ar gyfer y Rhaglen Cyflawni 5 Mlynedd (staff sgerbwd blwyddyn 1 yn unig)

COSTAU	Blwyddyn 1 2022/23	Blwyddyn 2 2023/24	Blwyddyn 3 2024/25	Blwyddyn 4 2025/26	Blwyddyn 5 2026/27
Cychwyn y prosiect	£50,000	£0	£0	£0	£0
Tîm CDS	£82,070	£448,848	£448,848	£448,848	£448,848
Tîm Cychwynnol y CDS	£13,000	£0	£0	£0	£0
Sail y Dystiolaeth	£0	£265,000	£265,000	£265,000	£0
Costau Archwilio	£0	£0	£0	£50,000	£200,000
Cyfieithu	£0	£12,500	£12,500	£12,500	£12,500
Argraffu	£0	£13,750	£13,750	£13,750	£13,750
Costau TG/Basdata	£0	£20,000	£3,333	£3,333	£3,333
Cyfanswm Cost y Gyllideb Flynyddol	**£145,070**	**£760,098**	**£743,431**	**£793,431**	**£678,431**

Tabl 7 – Cyfran y gost yn ôl yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (staff sgerbwd blwyddyn 1)

Awdurdod Lleol	Poblogaeth	Cyfran	Costau CDS Blwyddyn 1 (£)	Costau CDS Blwyddyn 2 (£)	Costau CDS Blwyddyn 3 (£)	Costau CDS Blwyddyn 4 (£)	Costau CDS Blwyddyn 5 (£)	Cyfanswm Costau CDS (£)
Ynys Môn	70,000	10.02%	14,533	76,145	74,476	79,484	67,964	312,602
Gwynedd	103,000	14.74%	21,391	112,076	109,619	116,991	100,035	460,112
Parc Cenedlaethol Eryri	25,400	3.63%	5,270	27,613	27,007	28,823	24,646	113,359
Conwy	113,000	16.18%	23,476	123,002	120,305	128,396	109,786	504,964
Sir Ddinbych	95,300	13.65%	19,803	103,757	101,482	108,307	92,609	425,957
Sir y Fflint	155,600	22.28%	32,321	169,347	165,633	176,773	151,152	695,226
Wrecsam	136,100	19.49%	28,277	148,159	144,910	154,656	132,240	608,242
Gogledd Cymru	**698,400**	**100.00%**	**145,070**	**760,098**	**743,431**	**793,431**	**678,431**	**3,120,461**

Tra bo'r dyraniad costau bob blwyddyn yn gallu amrywio, mae'r amcangyfrif cyllideb cyffredinol yn ddigon cadarn i'w ddefnyddio er dibenion cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni. Y prif wahaniaeth yw y gallai fod yn symlach i gyfartalu'r gyllideb sydd ei hangen o flwyddyn i flwyddyn. Gwahaniaeth arall yw y gwnaed y cyfrifiadau gwreiddiol yn 2021, ac mae'n ddarbodus amcangyfrif cynnydd yn sgil costau cynyddol a chwyddiant ers hynny. Mae cynnydd rhesymol o 5% wedi'i gymhwyso, sy'n dod â chyfanswm y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer y CDS i £3,276,484. Mae hyn yn cael ei gymharu isod gyda'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer CDS yn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo ar gyfer y CDS ar gyfer 2025/26.

Cymharu'r gyllideb:

a) Cyllideb Refeniw CDS y CBC 2025/26 a'r 5 mlynedd sy'n cael ei rhagamcanu (2026/27-2030/31)

£	2025/26	Rhagamcan 5 Mlynedd
Gweithwyr	226,230	1,131,150
Ymgynghorwyr allanol	132,500	662,500
Teithio	940	4,700
Deunyddiau a Gwasanaethau	25,080	125,400
Gwasanaethau Cefnogol	46,750	233,750
Cyfanswm	431,500	2,157,500

b) Amcan gyllideb CDS wedi'i pharatoi gan NWPOG

£	5 Mlynedd
Cyllideb CDS	3,120,461
Yn ogystal â lwfans am gostau cynyddol (5%)	3,276,484

c) Cyllideb wedi'i Rhagamcanu llai Amcan Gostau (diffyg)

£	5 Mlynedd	y flwyddyn
	-1,118,984	-223,796.80

Dosbarthiad y Diffyg:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori ei bod yn briodol rhannu'r costau rhwng yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn y CBC, yn seiliedig ar eu poblogaeth. Bu'r CBC fabwysiadu'r dull hwn a dyma sut mae'r cyfraniadau at gyllideb refeniw CDS y CBC 2025/26, wedi'u cyfrifo. Wrth ddefnyddio'r dull hwn i rannu'r diffyg blynyddol sydd i'w weld uchod, bydd angen i'r CBC ddod o hyd i'r cyfraniad blynyddol a ganlyn (colofn d), yn ogystal â'r cyfraniadau a wnaed eisoes i gyllideb 2025/26 (colofn f), ar gyfer cyfnod pum mlynedd y prosiect CDS, er mwyn cyllido'r CDS yn llawn. Nid yw hyn yn atal ymchwilio i unrhyw ffynonellau cyllido eraill, ond mae'n darparu 'senario gwaethaf' o safbwynt cynllunio ariannol strategol gan y CBC.

Cyfran diffyg cyllideb y CDS yn ôl ACLl

a	b	c	d	e	f	g	h
ACLl	Poblogaeth	%	% y boblogaeth a gymhwysir i ddiffyg cyllideb flynyddol	Diffyg blynyddol x5	Cyfraniad Cyllideb Cynllunio Strategol 2025/26*	Cyfraniad 2025/26 ynghyd â diffyg blynyddol	Cyfanswm y cyfraniad blynyddol x 5
Ynys Môn	70,000	10.02%	22,430.95	112,154.75	37,540	59,970.95	299,854.75
Conwy	113,000	16.18%	36,209.96	181,049.82	59,630	95,839.96	479,199.82
Sir Ddinbych	95,300	13.65%	30,538.14	152,690.69	52,660	83,198.14	415,990.69
Fflint	155,600	22.28%	49,860.80	249,304.00	84,450	134,310.80	671,554.00
Gwynedd	103,000	14.75%	33,005.54	165,027.71	53,860	86,865.54	434,327.71
Parc Cenedlaethol Eryri	25,400	3.64%	8,139.23	40,696.15	13,130	21,269.23	106,346.15
Wrecsam	136,100	19.49%	43,612.18	218,060.89	73,770	117,382.18	586,910.89
	698,400		223,796.80	1,118,984.00	375,040	598,836.80	2,994,184.00
					56,460	282,300	3,276,484.00
					** ON: cafwyd cyfraniad o £56,460 o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn*	*Tybio y bydd cyfraniad o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ail-adrodd am 5 mlynedd*	

Byddai hyn yn arwain at y cyfanswm cyfraniadau blynyddol a welir yng ngholofn g uchod, ac os byddai hyn yn cael ei gynnal dros bum mlynedd y cyfnod CDS, byddai'n rhoi digon o gyllid i dalu am gyfanswm yr amcan gostau (+ cynnydd o 5%) (colofn h). Hefyd, mae cafeat ar hyn o ran y ffaith nad oedd y cyfraniadau gan yr ACLl i gyllideb refeniw 2025/26 yn cwrdd â chyfanswm gwariant y gyllideb, a bu'n rhaid troi at y cronfeydd wrth gefn i gael cyfraniad i gau'r diffyg. Nid yw hyn yn glir eto, ond mae tybiaeth y byddai'r cyfraniad hwn yn parhau am gyfnod pum mlynedd y prosiect CDLl. Os nad yw hyn yn wir, yna byddai angen dod o hyd i £282,300 ychwanegol ar gyfer y CDS, e.e. 5 x £56,460.

Goblygiadau ar gyfer y CBC:

Mae'r cyfraniadau costau a'r dosrannu uchod yn gyfystyr â chyfartaledd o gynnydd o 60% o'r ddarpariaeth a wnaed yng nghyllideb refeniw Cynllunio Strategol y CBC yn 2025/26. Er bod y cynnydd hwn yn sylweddol, dim ond costau cychwynnol i gynhyrchu'r CDS a gafodd eu hystyried wrth osod cyllideb CBC 2025/26. Mae'n benodol a pherthnasol i nodi hyd yn oed gyda'r cynnydd gofynnol yn y cyfraniad sydd wedi'i nodi uchod i gwrdd â'r diffyg yn y gyllideb, byddai'r cyfanswm ddosrannu

cyfraniadau sy'n cael eu dangos yng ngholofnau g a h uchod, yn dal yn llai na sydd wedi'u nodi yn y gwaith a wnaed gan NWPOG nôl yn 2021 (gweler tabl 7 uchod).

Felly, mae'r asesiad uchod wedi cael ei baratoi i friffio uwch swyddogion ac Aelodau, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y broses gosod cyllideb wrth symud ymlaen o 2026/27, ac hyd nes y byddai'r CDS yn cael ei fabwysiadu yn 2031, yn ogystal â hwyluso trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru am gyllid.

Ffyrdd posib i leihau'r diffyg yn y gyllideb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod posibilrwydd y bydd cyllid ar gael eleni fel grant unwaith ac am byth o hyd at £200k. Byddai hyn o bosib yn ddigon ar gyfer tua 20% o'r diffyg cyffredinol, felly'n lleihau lefel y gofyniad ychwanegol gan ACLl mewn blynyddoedd dilynol. Byddai'r gallu i gario ymlaen unrhyw gyllideb sydd heb ei defnyddio o 2025/26 hefyd yn gymorth i ostwng y costau ychwanegol yn y dyfodol i ACLl. Hefyd, dylid cynnal asesiad o lefel ac argaeledd unrhyw gronfeydd wrth gefn neu falansau eraill a allai fod wedi cronni o gyllideb heb ei gwario mewn blynyddoedd blaenorol i helpu gyda hyn.

Ar yr un pryd, mae adolygiad o waith NWPOG ar y gweill er mwyn sefydlu p'un a oes unrhyw sgôp i leihau'r costau.